# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 25/10/18

**YN BRESENNOL:** Dewi Owen (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Olaf Cai Larsen, Catrin Wager, Dewi Wyn Roberts, Hefin Underwood, Judith Mary Humphreys a Edgar Wyn Owen

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd), Sion Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Dylan Bullard, Anwen J. Davies a Linda Ann Jones

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018 fel rhai cywir.

## 3. YMGYNGHORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2019-20

Cyflwynwyd adroddiad y Panel gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Nododd fod y penderfyniadau ar raddfeydd taliadau oedd ar gael i gynghorau unigol yn y gorffennol bellach wedi eu dileu yn dilyn adborth a dderbyniwyd gan y cynghorau. Ychwanegodd fod y Panel yn argymell cynyddu'r cyflog sylfaenol o £268 y flwyddyn (1.97%), cyflog Arweinwyr ac Aelodau Cabinet i gynyddu o £800 (gan gynnwys y £268 o gyflog sylfaenol), a chyflogau Dinesig i £22,568 ar gyfer Pennaeth Dinesig a thaliad o £17,568 ar gyfer Dirprwy Bennaeth Dinesig.

Cyfeiriodd hefyd at argymhellion y panel ynghylch Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor roi sylwadau gan fod ganddynt yn aml gysylltiad â chyngor Tref a Chymuned.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:
- Nad oedd dewis ond derbyn yr argymhellion.
- Nad oedd Aelodau y weithrediaeth wedi derbyn codiad cyflog tu hwnt i'r codiad yn y cyflog sylfaenol ers cryn amser.
- Gresyn nad oedd elfen o amrywio taliadau yn unol â pherfformiad a phresenoldeb.
- Cefnogi gosod taliadau ar un lefel gan nad oedd posib defnyddio'r taliadau i wleidydda.
- Croesawyd gosod lefel cyflog Cadeirydd y Cyngor ar yr un lefel a Chadeirydd Pwyllgor.
- Croesawyd fod Aelodau yn cael ychydig llai o godiad cyflog na swyddogion, a chroesawyd fod hynny yn cael ei gyflwyno wedi i swyddogion dderbyn codiad.
- Nodwyd fod angen ei wneud yn eglur i gynghorau Tref a Chymuned pa aelodau sy'n gymwys am ba daliadau ac am ba gyfnod er mwyn cynorthwyo eu cynllunio ariannol.

- O ran egwyddor y dylai pob aelod etholedig gael cyflog o ryw fath er mwyn annog amrywiaeth ac adlewyrchu'r gost amser ynghlwm a bod yn Aelod Etholedig.

**Penderfynwyd:**
**1 – Derbyn argymhellion y Panel.**
**2 – Fod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor hwn i'r Panel.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.35 y.h.

**CADEIRYDD**